Cofio diwedd yr Ail Ryfel Byd

Canllaw i Ymgysylltu â Chymunedau ar gyfer
Diwrnod VE, Diwrnod VJ a Phen-blwyddi Eraill yn 2025

ROYAL BRITISH LEGION

© ESTELLE THOMPSON/RBL

© MARK ALLAN/RBL

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol (RBL) wedi bod yn eiriolwr cenedlaethol dros Gofio ers ei ffurfio ym 1921. Mynegir hyn trwy waith y mae ein gwirfoddolwyr, canghennau, aelodau, partneriaid a staff yn eu cyflawni bob dydd ar draws y genedl. O ddigwyddiadau lleol i goffâd cenedlaethol, yn bersonol ac ar-lein, a thrwy'r adnoddau a gynhyrchwn, rydym yma i helpu'r genedl i ymgysylltu â Chofio. Sicrha hyn fod gwasanaeth ein Cymuned Lluoedd Arfog o Brydain a'r Gymanwlad, a'u haberth, bob amser yn cael ei gofio.

Cofio i Bawb

Cred RBL bod y pabi a'r Cofio wedi uno holl bobl a chymunedau Prydain a'r Gymanwlad ers y Rhyfel Byd Cyntaf, a hynny ers y cychwyn cyntaf. Mae'r cofio yn cydnabod cyfraniadau aruthrol y Lluoedd Arfog o'r cenhedloedd hyn ar gyfnodau o wrthdaro ynghyd ag adeg heddwch. Rydym wedi cofio'r cyfraniad hwn i'r rhyddid yr ydym yn ei fwynhau heddiw am dros ganrif, ac rydym yn parhau i wneud hynny trwy ein gwaith.

Mae'r RBL yn elusen heb duedd o ran plaid na chrefydd sy'n canolbwyntio ar brofiadau a lles y rheini sy'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, yn y fyddin, a'u teuluoedd, heb ystyried gwleidyddiaeth gwrthdaro.

© MATT ALEXANDER/RBL

Cydnabuwn:

- wasanaeth ac aberth y rheini sydd wedi gwasanaethu ac yn parhau i wasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain ei Fawrhydi, gan gynnwys aelodau'r Gymanwlad, yn y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig a'r Llu Awyr Brenhinol, o 1914 i'r presennol.
- gwasanaeth ac aberth sifiliaid, cymunedau, gwasanaethau a sefydliadau o Brydain a'r Gymanwlad yn ystod cyfnodau o wrthdaro neu weithredoedd terfysgol.
- teuluoedd personél Lluoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad, gan gynnwys y rhai mewn profedigaeth.

Os oes diddordeb gennych mewn dysgu rhagor am ein safbwynt ar y Cofio, gweler y ddogfen 'Pwyntiau Allweddol Cofio' yn Atodiad A.

Cliciwch yma i weld ein Pwyntiau Allweddol Cofio

© IWM - IMPERIAL WAR MUSEUM (HU 41808)

2025: Cofio diwedd yr Ail Ryfel Byd

Eleni, rydym yn nodi 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Y gwrthdaro mwyaf angheuol a difrodus mewn hanes, fe gyffyrddodd â phob cyfandir, roedd yn cynnwys miliynau o bobl ac mae'i waddol yn dal i gael ei deimlo heddiw.

Mae Diwrnod VE yn ddiwrnod sy'n cael ei gofio gan bawb a fu'n dyst iddo. Ar ôl bron i chwe blynedd o ryfel, ildiodd luoedd yr Almaen yn ddiamod ar 7 Mai, 1945, a daeth y gwrthdaro yn Ewrop i ben o'r diwedd.

Rhagwelwyd y newyddion hyn wrth i'r Cynghreiriaid symud trwy'r Almaen, a darlledwyd y cyhoeddiad swyddogol i bobl Prydain fin nos ar 7 Mai gyda'r newyddion yn torri y byddai'r diwrnod canlynol yn wyliau cenedlaethol (Diwrnod VE).

Ar draws gwledydd y Cynghreiriaid, dathlodd filiynau, yn falch bod blynyddoedd o wrthdaro a chaledi eithriadol yn dod i ben o'r diwedd. Eto i gyd pryfociodd y newyddion emosiynau cymysg i'r rheini a oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y rhyfel, ac i'r rheini a oedd yn poeni am ffrindiau a theulu a oedd yn parhau i wasanaethu (ac yn brwydro) dramor.

Er bod Diwrnod VE yn nodi dechrau ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, roedd miliynau yn dal ynghlwm â'r brwydro a oedd yn rhwygo trwy'r Dwyrain Pell a'r Môr Tawel, a chafodd llawer o filwyr a oedd wedi'u lleoli yn Ewrop eu hadleoli i'r dwyrain yn hytrach na dychwelyd adref.

Roedd prif fyddin brwydro Prydain a'r Gymanwlad, y 14eg Byddin, yn un o'r rhai mwyaf amrywiol mewn hanes: siaradwyd dros 40 o ieithoedd, gyda holl brif grefyddau'r byd wedi'u cynrychioli. Cafwyd llwyddiant wrth ryddhau Byrma, ond ar gost anferth. Mae disgynyddion llawer o gyn-filwyr y Gymanwlad y fyddin honno yn rhan o gymunedau ar draws y wlad heddiw: gwaddol parhaus o lwyddiant a brawdoliaeth y rheini a frwydrodd yn y dwyrain, a meysydd y gad eraill.

Nododd Ddiwrnod Buddugoliaeth dros Japan (Diwrnod VJ) ar 15 Awst, 1945 y Japaneaid yn ildio, a wnaeth i bob pwrpas ddod â'r Ail Ryfel Byd i ben, a chafwyd gorfoledd yng ngwledydd y Cynghreiriaid.

Ffurfiodd yr Ail Ryfel Byd ein byd modern yn ddiwys, gan helpu i feithrin cydweithrediad byd-eang a sefydlu sefydliadau fel y Cenhedloedd Unedig.

Bydd gan bawb ym Mhrydain heddiw gysylltiad â'r rheini a wasanaethodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, naill ai trwy eu teulu neu dreftadaeth gymunedol. Wrth nodi'r 80 mlynedd hyn, cofiwn ymdrechion y genhedlaeth ar adeg rhyfel. Dymuna'r RBL helpu cymunedau ar draws y DU i nodi'r pen-blwyddi pwysig hyn, ac isod ceir gwybodaeth a chyngor i gynorthwyo.

Diwrnod VE a Diwrnod VJ yw'r pen-blwyddi arwyddocaol yng nghalendr Cofio 2025. Gallwch nodi pen-blwyddi neu achlysuron eraill sy'n cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu.



Sawl ffordd o gofio

Bob mis Tachwedd, unwn fel cenedl wrth Gofio ar y cyd. Yn ystod y cyfnod hwn o fyfyrio tawel, anrhydeddwn y rhai a gollwyd a'r rheini yr effeithiodd y gwrthdaro arnynt ac mae'n dangos ein cefnogaeth i gyn-filwyr, milwyr actif a'u teuluoedd.

Eto gall Gweithredoedd o Gofio ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn pa bryd bynnag y bydd pen-blwydd, ffilm, ffotograff, y newyddion neu gyfarfod rhywun yn sbarduno meddwl neu deimlad. Ar adegau o'r fath, mae pobl yn cydnabod eu galar a'u tristwch, ynghyd â balchder, wrth iddynt gofio person neu ddigwyddiad. Gall pob Gweithred o Gofio angori atgofion a'n helpu ni i rannu ein meddyliau a'n hemosiynau.

Rydym eisiau i chi annog cymunedau i ganfod eu ffordd eu hunain o ymgysylltu â Chofio. Gallai gweithgareddau i'w hystyried gynnwys:

- Creu gofod ar gyfer ystyriaeth a myfyrdod tawel o Gofio. Gallai hyn gynnwys dewis planhigion oherwydd eu symbolaeth neu i'w hatgoffa am berson neu ddigwyddiad. Gallai hyn fod yn ofod yn y gymuned, eich gardd neu hyd yn oed blwch ffenestr.
- Cynnal digwyddiad megis bore coffi a chacen a rhannu straeon personol o Gofio â'r rheini yn bresennol. Fe allech chi gynnwys gweithgaredd crefft.
- Ymweld â chofadail lleol, lleoliad fel yr Coedardd Goffa Genedlaethol neu amgueddfa neu safle treftadaeth lleol.
- Rhannu bwydydd o wledydd y rhai a wasanaethodd, ac sy'n parhau i wasanaethu, yn y Lluoedd Arfog. A fyddent wedi hiraethu am y prydau hyn pan oeddent oddi cartref?
- Yn syml trwy wisgo pabi.
- Gosod torch, neu gymryd rhan mewn digwyddiad lleol neu genedlaethol, megis gwasanaeth neu barêd.
- Mynychu sgwrs neu, os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny, rhoi cyflwyniad eich hun i grŵp lleol. Mae gennym adnoddau ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan i'w cyflwyno i oedolion a phlant (cynradd ac uwchradd)

Cliciwch yma i weld ein hadnoddau cyflwyno

© MARK ALLAN/RBL

Sut i Ymgysylltu â'ch Cymuned wrth Gofio

Mae Cofio yn amser i anrhydeddu ein cymuned Lluoedd Arfog sydd wedi gwasanaethu ac aberthu i amddiffyn ein rhyddid democrataidd a ffordd o fyw.

Fel y canfuwyd yn Arolwg Cartrefi 2014 mae nifer y rheini â chysylltiad personol â gwasanaethu yn y Fyddin, y Llynges Frenhinol a'r Llu Awyr Brenhinol yn gostwng. O ganlyniad i hynny, bydd gan lai o bobl yn eich cymuned ehangach brofiad uniongyrchol neu ddealltwriaeth ddofn o wasanaeth milwrol. Wrth feddwl am yr hyn y mae Cofio yn ei olygu i chi, ac wrth siarad ag eraill yn eich cymuned, efallai y gwelwch nad yw eu rhesymau dros gofio yn canolbwyntio'n llwyr ar wasanaeth milwrol. Gallai meddyliau, teimladau, agweddau a dehongliadau pobl o Gofio amrywio.

Gellir cyfoethogi'ch digwyddiadau trwy wahodd cyn-filwyr o'r Ail Ryfel Byd.

Rhowch gynnig ar lwybrau gwahanol i ganfod a gwahodd cyn-filwyr. Gallai canghennau RBL lleol fod yn ymwybodol ohonynt. Efallai yr hoffech chi hefyd holi cartrefi gofal a chanolfannau dydd. Gallai clybiau rotari a chymdeithasau fod â chyn-filwyr (neu eu teuluoedd) ymhlith eu haelodau a gallai addoldai lleol fod yn adnabod rhai hefyd.

Mae gan lawer o gynghorau lleol Swyddogion Lluoedd Arfog â'u swydd yw adnabod cyn-filwyr a'u hanghenion yn y gymuned leol a chynnal digwyddiadau megis clybiau cyn-filwyr.

Os oes Cymdeithas Gatrodol neu gangen wedi'i lleoli yn eich ardal, ac amgueddfa gatrodol, byddai'n werth cysylltu â nhw gan y gallai fod ganddynt gysylltiad â chyn-filwyr.

Byddai'n werth hefyd cysylltu â chanolfannau hanes lleol, grwpiau hanes ac amgueddfeydd, ynghyd â chwilio am fforymau ar-lein ar gyfer cyn-filwyr a hanes lleol. Er enghraifft, efallai y bydd grwpiau Facebook pwrpasol lleol y gallech chi ymuno â nhw a rhoi neges yn gofyn am wybodaeth.

Parhewch i ddarllen i ddysgu mwy am yr adnoddau yr ydym wedi'u creu i gefnogi'ch siwrnai i annog pobl i gofio ac ymgysylltu â Chofio.

© NATIONAL MEMORIAL ARBORETUM

Adnoddau i ymgysylltu â'ch cymuned

I'ch helpu chi i ymgysylltu â'ch cymuned rydym yn cynhyrchu nifer o unedau arddangos a fydd yn archwilio themâu coffa yn 2025. Mae'r rhain yn arddangosfeydd annibynnol o wahanol feintiau y gellir eu harchebu o'n cyflenwr Brand Jam trwy borth ar-lein.

Cliciwch yma i ymweld â'r porth

Mae tŵr pedair ochr sy'n hawdd ei osod a fyddai, ar 2.5m o uchder, yn destun trafod gwych mewn unrhyw ddigwyddiad. Yn ychwanegol, bydd baneri codi un ochr a dwy ochr ynghyd â phoster mawr a thaflen.

Bydd pob un o'r eitemau hyn ar gael ar y ffurfiau a ganlyn:

- Diwedd yr Ail Ryfel Byd, yn cynnwys trosolwg ac astudiaethau achos cyn-filwyr a delweddau.
- Rhaglen Ddysgu Addysgu'r Cofio, yn cynnwys gwybodaeth ar ddigwyddiadau ac adnoddau ar gael i athrawon ac addysgwyr.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu ystod o adnoddau y gellir eu lawrlwytho am ddim ar gyfer grwpiau cymunedol, canghennau RBL, sefydliadau partner RBL ac unrhyw grŵp arall sy'n dymuno nodi'r pen-blwydd trwy ymgysylltu â'u cymunedau i gofio. Bydd yr adnoddau yn galluogi i grwpiau ymgysylltu'n hyderus â chymunedau a chynnig syniadau am allgymorth ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau. Bydd adnoddau pwrpasol ar gael gyda ffocws addysgol i oedolion nad ydynt yn addysgu i ymgysylltu â phobl ifanc.

Mae'r adnoddau hyn, sy'n cynnwys cyflwyniadau, posteri a thaflenni, ar gael ar wefan RBL.

Cliciwch yma i gyrchu adnoddau y gellir eu lawrlwytho am ddim

© RBL

© MARK ALLAN/RBL

Ymgysylltu â Phobl Ifanc wrth Gofio

Mae helpu pobl ifanc i ddeall a chreu eu cysylltiadau eu hunain â Chofio yn rhan bwysig o'n gwaith. Cynigia Rhaglen Ddysgu Addysgu'r Cofio RBL adnoddau a digwyddiadau deniadol, am ddim i ysgolion, grwpiau ieuenctid a theuluoedd.

Yr hyn a gynigiwn:

- **Adnoddau dysgu y gellir eu lawrlwytho am ddim - ar gael trwy gydol y flwyddyn**
- **Digwyddiadau am ddim - gweithdai ar-lein, gwasanaethau a mwy**
- **Gweithgareddau cysylltiedig â'r cwricwlwm - cefnogi'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cwricwlwm i Gymru**

Mae ein llyfrgell adnoddau dysgu ar-lein yn cynnwys adnoddau ar gyfer plant oedran Cynradd ac Uwchradd. Gall athrawon, addysgwyr ac arweinwyr grŵp ieuenctid ddewis o wasanaethau cysylltiedig â'r cwricwlwm, archebu pecynnau gweithgaredd clwb llyfrau a gweithgareddau dysgu eraill sy'n annog pobl ifanc i archwilio ystyr y Cofio.

Gallwn gynnig cyfleoedd i bobl ifanc archwilio'r Cofio mewn digwyddiadau ymgysylltu a rhyngweithio. Bob mis Tachwedd rydym yn cynnal Gwasanaeth Cofio sy'n cael ei ddarlledu ar draws y DU i gannoedd o filoedd o blant mewn ysgolion. Mae'r digwyddiad hwn yn dwyn ynghyd celf, cerddoriaeth, barddoniaeth, cyfweliadau a mwy i greu profiad Cofio arbennig i blant rhwng 9 a 14 oed.

Yn 2025, byddwn yn lansio set arbennig o adnoddau wedi'u dylunio i helpu plant oedran Cynradd ddeall diwedd yr Ail Ryfel Byd a'r bobl a wasanaethodd yn ystod y cyfnod pwysig hwn. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiad ar-lein ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar draws y wlad i wylio a darganfod straeon y rheini a oedd yn byw trwy'r cyfnod hynod hwn. Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnwys sesiwn Holi ac Ateb gyda phobl ifanc a thaflen digwyddiad addysgol.

I gael mynediad at adnoddau Cofio rhad ac am ddim a chofrestru ar gyfer digwyddiadau ewch i **rbl.org.uk/teachingremembrance**

Cliciwch yma i gyrchu adnoddau Addysgu'r Cofio

Atodiad A

Pwyntiau Allweddol Cofio

ROYAL BRITISH LEGION

Cofio

Cred Y Lleng Brydeinig Frenhinol bod y pabi a Chofio wedi, ac yn parhau i, uno'r holl bobl a chymunedau ar draws Prydain a'r Gymanwlad ers y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gefnogi a chydnabod cyfraniadau'r Lluoedd Arfog o'r cenhedloedd hyn ar adeg o wrthdaro ac ailadeiladu cymdeithas. Rydym wedi cofio'r cyfraniad hwn i'r rhyddid yr ydym yn ei fwynhau heddiw am dros ganrif a byddwn yn parhau i wneud hynny trwy ein gwaith.

Rydym yn sefydliad heb duedd o ran plaid na chrefydd sy'n canolbwyntio ar brofiadau'r rheini sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y fyddin, a'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan eu gwasanaeth, heb ystyried gwleidyddiaeth y gwrthdaro.

Rydym yn cydnabod gwasanaeth ac aberth pawb sydd wedi gwasanaethu neu sy'n gwasanaethu ym Myddinoedd Lluoedd Prydain ei Fawrhydi, gan gynnwys aelodau y Gymanwlad yn y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig a'r Llu Awyr Brenhinol, o 1914 i'r presennol. Mae hyn yn cynnwys personél byw a marw, waeth pa mo hir fuon nhw'n gwasanaethu.

Rydym yn cydnabod gwasanaeth ac aberth sifiliaid, cymunedau, gwasanaethau, a sefydliadau o Brydain a'r Gymanwlad yn ystod cyfnodau o wrthdaro neu weithredoedd terfysgaeth. Rydym yn ymrwymedig i gydnabod eu cyfraniadau wrth Gofio, megis cefnogaeth y gwasanaethau brys a'r Llynges Fasnachol.

Rydym yn cydnabod teuluoedd personél Lluoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad; mae hyn yn cynnwys y rheini sydd mewn galar.

Gweithredoedd Cofio

Er y gallai gynnwys seremonïau ffurfiol a/neu grefyddol ar y dechrau a'r diwedd, mae'r Weithred Cofio yn ei hanfod yn syml, yn gryno, ac yn anghrefyddol. Gallai'r trefnydd ymgynnull pa bynnag ddarlleniadau, cerddoriaeth neu elfennau eraill i gyd-fynd â'r Weithred Cofio fel ei fod yn berthnasol i'r gymuned benodol sy'n mynychu.

Nid yw RBL yn gwrthwynebu torchau nad ydynt yn rai pabi coch neu flodau eraill yn cael eu gosod ar gofebion rhyfel neu yn y gwasanaethau Cofio ochr yn ochr â thorchau pabi coch ac mae'r RBL yn parchu hawliau a rhyddid grwpiau ac unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sut i nodi'r Cofio.

Dymuniad RBL yw nad yw'r pabi coch yn cael ei gynnwys o fewn torchau nad ydynt yn rai pabi coch neu flodau eraill ond yn parhau ar wahân. Y rheswm dros hyn yw bod torchau pabi coch yn gynhwysol i bawb a phob cymuned.

Mae'r Ddwy Funud o Dawelwch, y cedwir atynt ar Sul y Cofio (yr ail Ddydd Sul ym mis Tachwedd) a Diwrnod y Cadoediad (11 Tachwedd), yn amser i'r genedl anrhydeddu aberth y rheini sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad. Mae'n gyfle i fyfyrio a chofio'n bersonol, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat. Er bod cymryd rhan yn wirfoddol, mae'n bwysig parchu'r rheini sy'n dewis oedi a myfyrio.

Y pabi

Mae'r pabi yn symbol a gydnabyddir yn fyd-eang o Gofio a gobaith am ddyfodol heddychlon ers ei wisgo yn gyntaf fel gweithred o Gofio ac i godi arian i'r Lleng Brydeinig dros 100 mlynedd yn ôl.

Mae'n ein huno ni wrth gofio pawb o Luoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad sydd wedi gwasanaethu ac aberthu; ac yn parhau i wneud hynny heddiw, i amddiffyn democratiaeth a rhyddid.

Mae'r pabi hefyd yn cydnabod effaith ehangach gwrthdaro.

Cynrychiola gyfraniad gwasanaethau sifiliaid a gwasanaethau brys mewn lifrai sy'n cyfrannu at ddiogelwch cenedlaethol mewn cyfnod o ryfel, gwrthdaro neu derfysgaeth ac yn cydnabod sifiliaid diniwed sydd wedi colli eu bywydau mewn cyfnodau o'r fath.

Gwisgo pabi

Does dim ffordd gywir nac anghywir o wisgo'r pabi.

Gellir gwisgo'r pabi trwy gydol y flwyddyn pa bryd bynnag y dymunwch ddangos eich cefnogaeth i Luoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad, y gorffennol a/neu'r presennol.

Mae'r penderfyniad i wisgo pabi yn wirfoddol ac mae'r RBL yn cydnabod dymuniad pobl i wisgo pabi o wahanol liwiau neu flodau gwahanol neu osod symbolau eraill ochr yn ochr â'r pabi. Serch hynny, mae'r pabi coch yn gynhwysol i bawb o bob cefndir.

Mae'r pabi coch hefyd yn codi arian i gefnogi cyn-filwyr o Luoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad a'u teuluoedd mewn cyfnodau o angen. Nid oes anghysondeb wrth wisgo arwyddluniau eraill ochr yn ochr â'r pabi coch a pharchwn hawliau unrhyw unigolyn i fynegi ei farn o fewn y gyfraith.

PUBLISHED: MARCH 2025

ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number: 219279 | rbl.org.uk